Sut ydym ni'n adnabod anifeiliaid?

Trosolwg

Bydd dysgwyr yn ystyried pa wybodaeth sydd gan bobl amdanynt ac yn gwneud gwaith ymchwil i archwilio'r syniad hwn a sut y cesglir y wybodaeth hon mewn mwy o ddyfnder. Byddant yn ystyried pa wybodaeth sydd gennym am ddefaid ac yn ystyried pam eu bod yn cael eu tagio a'u marcio, gan ddefnyddio eu syniadau i ddatrys problem. Yn olaf, bydd dysgwyr yn defnyddio'r cwestiynau a godwyd yn ystod y gweithgaredd i roi cominwr yn y gadair boeth er mwyn casglu gwybodaeth am fywyd defaid ar y Comin.

Cyfleoedd i ddatblygu...



COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y gweithgaredd

- Mynediad i'r rhyngrwyd
- Ymweliad gan ffermwr/gominwr sy'n pori anifeiliaid ar y Comin – y gadair boeth.

Adnoddau wedi'u cynnwys gyda'r gweithgaredd hwn

1. Ffotograffau o ddefaid yng Nghymru yn arddangos marciau a thagiau
2. Tasg datrys problem yn ymwneud â defaid
   Cwestiynau ffocws a awgrymir mewn setiau, sy'n ymwneud â phob tasg, y gellir eu rhoi i bob pâr/grŵp wrth iddynt ddechrau pob tasg. I'r gwrthwyneb, gall yr athro ddefnyddio'r cwestiynau hyn.

Sut i gynnal y gweithgaredd

Tasg 1: Pa wybodaeth sydd gan bobl amdanom ni?

Gofynnwch i barau o ddysgwyr feddwl am a thrafod pa wybodaeth y gallai pobl fod yn ei gwybod am bob un ohonom. Anogwch nhw i ystyried sut a pham y gellir adnabod pobl yn unigol, a chofnodi a rhannu eu syniadau fel map meddwl.

Cwestiynau a awgrymir

- Sut ydym ni'n gwybod pwy ydym ni? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa dystiolaeth sydd gennym?
- Pa gofnodion sydd i ddangos pwy ydym ni? Sut ydych chi'n gwybod hynny?
- Sut mae ysbytai yn sicrhau bod y babi cywir yn mynd adref gyda'r fam gywir? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Tasg 2: Sut allwn ni ddarganfod mwy?

Gwahoddwch y dysgwyr i ofyn i deulu a ffrindiau am ragor o enghreifftiau am sut y gellir adnabod pobl. Gellir gwneud hyn dros y penwythnos neu hanner tymor, er enghraifft, gyda'r dysgwyr wedyn yn adrodd am eu canfyddiadau yr wythnos ganlynol. Mae'r dysgwyr yn debygol o ddod o hyd i enghreifftiau megis cofnodion y GIG, trwydded yrru, cerdyn adnabod gwaith, rhif yswiriant gwladol, cyfrif banc, tystysgrif geni, ac ati. Eglurwch i'r dysgwyr bod nifer o'r dogfennau hyn yn rhai personol ac efallai y bydd pobl yn dweud wrthynt am y dogfennau hyn, ond yn dewis peidio â'u rhannu gyda nhw.

Anogwch y dysgwyr i archwilio pa ddogfennau sydd eu hangen i gael dogfen newydd, neu gael aelodaeth/cofrestriad i rywbeth. Er enghraifft, gallent wneud gwaith ymchwil ar ba ddogfennau sydd eu hangen i gael cyfrif banc, pasbort, trwydded yrru neu i ymuno â meddygfa neu ddeintyddfa.

Efallai y byddai'n werth cysylltu hyn gyda diogelwch seibr yma, gan wneud y pwynt bod gennym oll wybodaeth nad ydym o bosib eisiau ei rhannu gyda phobl eraill. Cyfrineiriau, manylion banc, cofnodion meddygol, ac ati.

Efallai y bydd gan rai dysgwyr basbort a bydd nifer o rieni/gofalwyr yn dangos eu llyfr GIG iddynt, er enghraifft; fodd bynnag, mae'n debygol na fydd rhai eisiau dangos eu dyddiad geni i'r dysgwyr.

Cwestiynau a awgrymir

- Beth wnaethoch chi ei ddarganfod am y ffordd y gellir adnabod pobl?
- Pwy ddywedodd hyn wrthoch? Beth wnaethant ei ddangos i chi?
- A oedd rhai pethau nad oedd pobl yn fodlon ei ddangos i chi? Pam?
- Pa gofnodion neu ddogfennau amdanoch chi y gwelsoch? Pa wybodaeth oeddent yn eu cynnwys? Pam?
- Pa wybodaeth/dogfennau y mae pobl eu hangen i gael pasbort/trwydded yrru? Pam bod angen iddynt weld yr wybodaeth hon?
- Beth maen nhw'n ei ofyn i chi pan fyddwch yn cofrestru gyda meddyg newydd neu pan fyddwch yn ymweld ag ysbyty am y tro cyntaf? Pam bod angen iddynt wybod y pethau hyn?
- Pa mor hawdd fyddai i chi ffugio bod yn rhywun arall? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Tasg 3: Sut mae gwybodaeth amdanom yn cael ei chasglu?

Gwahoddwch grwpiau bach o ddysgwyr i gynnal gwaith ymchwil ac yna i fapio'r wybodaeth a gesglir am unigolion wrth iddynt fynd trwy eu bywyd. Efallai y byddant yn dechrau gyda tag babi a thystysgrif geni ac adeiladu proffil i ddangos sut y gellir adnabod unigolion.

Cwestiynau a awgrymir

- Pa wybodaeth sydd angen i chi chwilio amdani?
- Sut wnewch chi hyn? Pam ei wneud yn y modd hwn?
- Beth yw'r peth cyntaf mewn bywyd sy'n cael ei ddefnyddio i adnabod unigolion? Beth sy'n dod nesaf?
- Sut mae eich proffil yn edrych? Faint o bethau sy'n cael eu defnyddio i'n hadnabod ni? A oes diweddbwynt? Pam?
- Beth yw'r ddogfen derfynol a ddefnyddir i adnabod unigolyn? Pam fod angen hon?

Fel estyniad i'r dasg hon, gallwch ofyn i'r dysgwyr chwilio ar-lein am boblogaeth eu pentref/tref, neu gallwch wneud y chwiliad gyda'r dosbarth gan ddefnyddio bwrdd gwyn, er enghraifft. Gwahoddwch barau o ddysgwyr i feddwl am a thrafod sut efallai bod y wybodaeth hon am y boblogaeth yn hysbys ac i rannu eu syniadau.

Eglurwch iddynt yn ogystal â'r gallu i adnabod unigolion, bod gwybodaeth yn cael ei chasglu am grwpiau bach a mawr mewn cymdeithas, ac un ffordd o wneud hyn yw drwy gyfrifiad. Gallent ymchwilio i ddyddiad y cyfrifiad cyntaf (1801), neu pa mor aml y cynhelir cyfrifiad (bob 10 mlynedd), p'un a oes unrhyw rai wedi cael eu colli (1941) a phryd mae'r un nesaf (2021). Gall dysgwyr hefyd ganfod pa wybodaeth sy'n cael ei chasglu a sut mae'n cael ei defnyddio.

Cwestiynau a awgrymir

- Beth wnaethoch chi ei ddarganfod am yr hyn y mae cyfrifiad yn ei olygu? Sut?
- Pryd maen nhw'n eu cael nhw? Pa mor aml? Pam?
- Pa wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn ystod cyfrifiad? Pam?
- Beth sy'n cael ei wneud gyda'r wybodaeth hon?

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Tasg 4: Pa wybodaeth sydd gennym ni am ddefaid?

Gofynnwch i barau o ddysgwyr feddwl am a thrafod yr hyn maen nhw'n ei wybod am ddefaid ac i gofnodi a rhannu eu syniadau gan ddefnyddio map meddwl – naill ai ar-lein neu ar bapur. Gallwch gasglu rhestr ddosbarth o syniadau o'r adborth neu wahodd y dysgwyr i arddangos syniadau ar wal drwy ddefnyddio nodiadau gludiog. Anogwch nhw i ddechrau rhestru'r cwestiynau yr hoffent ateb iddynt er mwyn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am ddefaid. Gallai'r rhain ffurfio sail i'r gweithgaredd cadair boeth yn Nhasg 6.

Cwestiynau a awgrymir

- Sut mae defaid yn edrych, swnio ac aroglau?
- Pa 5 gair y byddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio dafad? Pam y geiriau hyn?
- Ble ydych chi'n gweld defaid? Pam ydych chi'n eu gweld yn y llefydd hyn?
- Beth maen nhw'n ei wneud yno? Pam? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth mae defaid yn ei fwyta a'i yfed? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ble maen nhw'n cysgu? Pam?
- Beth arall yr hoffech chi ei ddarganfod am ddefaid? Pam?

Tasg 5: Pam fod defaid yn cael eu marcio a'u tagio?

Gofynnwch i barau o ddysgwyr feddwl am a thrafod pam fod angen i ni allu adnabod defaid, e.e. drwy farcio a thagio. Gallwch ddefnyddio **Adnodd 1** fel ysgogiad sy'n dangos defaid yng Nghymru wedi cael eu marcio a'u tagio. Anogwch nhw i rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

Cwestiynau a awgrymir

- Pam ydych chi'n meddwl bod angen i ni adnabod defaid?
- Sut mae defaid yn cael eu marcio?
- Gyda beth maen nhw'n cael eu marcio? Pam? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pam ydych chi'n meddwl bod defaid yn cael eu tagio?
- Sut maen nhw'n cael eu tagio? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa wybodaeth ydych chi'n meddwl sydd ar y tag? Pam ydych chi'n meddwl bod angen yr wybodaeth honno?
- Pam bod bob dafad angen yr wybodaeth hon ar ei thag?

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Tasg 6: Beth yw'r ffordd orau o dagio defaid?

Rhowch y gweithgaredd datrys problem am ddefaid (**Adnodd 2**) i barau o ddysgwyr. Gwahoddwch nhw i ddarllen y broblem, rhannu eu syniadau a rhoi datrysiadau posib i'r broblem ar y daflen.

Gofynnwch i barau o ddysgwyr gyfnewid eu taflenni adnodd ac i asesu eu cyfoedion ar y datrysiadau a roddwyd gan barau eraill o ddysgwyr. Efallai y byddant yn rhoi adborth ar ffurf sylw syml gan ddefnyddio dwy seren a dymuniad, er enghraifft.

Cwestiynau a awgrymir

- Beth mae'r broblem yn gofyn i chi ei wneud?
- Sut ewch chi i'r afael â'r dasg hon? Pam?
- Sut fyddwch chi'n gwybod bod gennych chi ddatrysiad da?

Mae gwybodaeth am dagio defaid yng Nghymru yn gymhleth ac wedi'i digideiddio ar brydiau. Fodd bynnag, os oes angen gwybodaeth gywir arnoch, gweler:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/adnabod-defaid-a-geifr-canllawiau-i-geidwaid-2018.pdf

Tasg 7: Beth allwn ni ei ddarganfod gan ffermwr/gominwr?

Gwahoddwch ffermwr/gominwr lleol i'r ysgol i gymryd rhan mewn gweithgaredd cadair boeth. Eglurwch iddo/iddi bod y dysgwyr wedi llunio cyfres o gwestiynau wedi'u hanelu at ddarganfod mwy am fywyd defaid ar y Comin a'r hyn y mae'n rhaid i'r ffermwr/gominwr ei wneud i helpu i ofalu am y defaid a'u cadw yn ddiogel.

Gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr baratoi eu cwestiynau cyn gwneud y dasg, gan sicrhau bod ystod o wahanol gwestiynau heb unrhyw ddyblygu. Gellir, o bosib, datblygu rhestr ddosbarth o gwestiynau a'u dosbarthu ar hap i'r grwpiau.

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Tasg 7: Parhad ...

Rhydd y dasg hon y cyfle perffaith i ddysgwyr ddarganfod gwybodaeth o lygad y ffynnon am ddefaid a sut maen nhw'n byw. Efallai y bydd syniadau na fydd y dysgwyr wedi eu hystyried, a gallwch sicrhau ymlaen llaw eu bod wedi ystyried materion megis:

- Pam fod defaid yn cael eu tagio?
- Sut maen nhw'n cael eu tagio a pham yn y ffordd yma?
- Sut mae problemau megis gyrru oddi ar y ffordd, tipio anghyfreithlon a thanau bwriadol yn effeithio ar ddefaid? Pam?

Cwestiynau a awgrymir

- Pa gwestiynau wnewch chi ofyn i'r ffermwr/gominwr? Pam?
- Beth ydych chi'n ceisio ei ddarganfod? Pam?
- Pa eiriau fyddwch chi'n eu defnyddio ar ddechrau eich cwestiynau? Pam?
- Pa rai o'ch cwestiynau y gellid eu hateb gyda 'oes/ydi/ie' neu 'na'?
- Sut allwch chi newid y cwestiynau hyn er mwyn cael ateb hirach?

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Adnodd 1: Defaid yng Nghymru

Adnodd 2: Tasg datrys problem yn ymwneud â defaid

Mae pum fferm sydd â defaid y byddant yn hoffi eu pori ar y Comin.

fferm	cyfanswm nifer y defaid
Jones	112
Thomas	225
Evans	289
Davies	178
Williams	146

Bydd yr holl ddefaid yn pori gyda'i gilydd ac yn crwydro o gwmpas i ble bynnag y mynnant. Fodd bynnag, mae pob fferm eisiau gwybod pa ddefaid sy'n perthyn iddyn nhw.

Sut allwch chi farcio pob dafad?

Nawr, datblygwch system godio y gallwch ei defnyddio ar gyfer y tagiau defaid fel y gellir adnabod pob dafad yn unigol. Ceisiwch gadw'r cod mor syml ag y bo modd, a defnyddiwch cyn lleied o lythrennau ac/neu rifau ag y medrwch. Cofiwch fod rhaid iddo ffitio ar dag dafad drwy glust y ddafad.

Mae angen i bob dafad ar y Comin gael ei thagio gyda'r wybodaeth a ganlyn:

- gwryw neu benyw
- fferm
- rhif y ddafad
- ei dyddiad geni.

Dangoswch enghraifft o un o'ch tagiau ar y diagram isod, ac eglurwch sut yr ydych wedi defnyddio'ch cod.

Eglurhad o'r cod:

Adnodd 3: Cwestiynau ffocws a awgrymir

Tasg 1: Pa wybodaeth sydd gan bobl amdanom ni?

- Sut ydym ni'n gwybod pwy ydym ni? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa dystiolaeth sydd gennym?
- Pa gofnodion sydd i ddangos pwy ydym ni? Sut ydych chi'n gwybod hynny?
- Sut mae ysbytai yn sicrhau bod y babi cywir yn mynd adref gyda'r fam gywir? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Tasg 2: Sut allwn ni ddarganfod mwy?

- Beth wnaethoch chi ei ddarganfod am y ffordd y gellir adnabod pobl?
- Pwy ddywedodd hyn wrthoch? Beth wnaethant ei ddangos i chi?
- A oedd rhai pethau nad oedd pobl yn fodlon ei ddangos i chi? Pam?
- Pa gofnodion neu ddogfennau amdanoch chi y gwelsoch? Pa wybodaeth oeddent yn eu cynnwys? Pam?
- Pa wybodaeth/dogfennau y mae pobl eu hangen i gael pasbort/trwydded yrru? Pam bod angen iddynt weld yr wybodaeth hon?
- Beth maen nhw'n ei ofyn i chi pan fyddwch yn cofrestru gyda meddyg newydd neu pan fyddwch yn ymweld ag ysbyty am y tro cyntaf? Pam bod angen iddynt wybod y pethau hyn?
- Pa mor hawdd fyddai i chi ffugio bod yn rhywun arall? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Tasg 3: Sut mae gwybodaeth amdanom yn cael ei chasglu?

- Pa wybodaeth sydd angen i chi chwilio amdani?
- Sut wnewch chi hyn? Pam ei wneud yn y modd hwn?
- Beth yw'r peth cyntaf mewn bywyd sy'n cael ei ddefnyddio i adnabod unigolion? Beth sy'n dod nesaf?
- Sut mae eich proffil yn edrych? Faint o bethau sy'n cael eu defnyddio i'n hadnabod ni? A oes diweddbwynt? Pam?
- Beth yw'r ddogfen derfynol a ddefnyddir i adnabod unigolyn? Pam fod angen hon?
- Beth wnaethoch chi ei ddarganfod am yr hyn y mae cyfrifiad yn ei olygu? Sut?
- Pryd maen nhw'n eu cael nhw? Pa mor aml? Pam?
- Pa wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn ystod cyfrifiad? Pam?
- Beth sy'n cael ei wneud gyda'r wybodaeth hon?

Tasg 4: Pa wybodaeth sydd gennym am ddefaid?

- Sut mae defaid yn edrych, swnio ac aroglau?
- Pa 5 gair y byddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio dafad? Pam y geiriau hyn?
- Ble ydych chi'n gweld defaid? Pam ydych chi'n eu gweld yn y llefydd hyn?
- Beth maen nhw'n ei wneud yno? Pam? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth mae defaid yn ei fwyta a'i yfed? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ble maen nhw'n cysgu? Pam?
- Beth arall yr hoffech chi ei ddarganfod am ddefaid? Pam?

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Tasg 5: Pam fod defaid yn cael eu tagio a'u marcio?

- Pam ydych chi'n meddwl bod angen i ni adnabod defaid?
- Sut mae defaid yn cael eu marcio?
- Gyda beth maen nhw'n cael eu marcio? Pam? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pam ydych chi'n meddwl bod defaid yn cael eu tagio?
- Sut maen nhw'n cael eu tagio? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa wybodaeth ydych chi'n meddwl sydd ar y tag? Pam ydych chi'n meddwl bod angen yr wybodaeth honno?
- Pam bod bob dafad angen yr wybodaeth hon ar ei thag?

Tasg 6: Beth yw'r ffordd orau o dagio defaid?

- Beth mae'r broblem yn gofyn i chi ei wneud?
- Sut ewch chi i'r afael â'r dasg hon? Pam?
- Sut fyddwch chi'n gwybod bod gennych chi ddatrysiad da?

Tasg 7: Beth allwn ni ei ddarganfod gan ffermwr/gominwr?

- Pa gwestiynau wnewch chi ofyn i'r ffermwr/gominwr? Pam?
- Beth ydych chi'n ceisio ei ddarganfod? Pam?
- Pa eiriau fyddwch chi'n eu defnyddio ar ddechrau eich cwestiynau? Pam?
- Pa rai o'ch cwestiynau y gellid eu hateb gyda 'oes/ydi/ie' neu 'na'?
- Sut allwch chi newid y cwestiynau hyn er mwyn cael ateb hirach?

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government